



At: Prif Swyddogion Cynllunio yng
Nghymru

25 Chwefror 2015

Annwyl Gydweithiwr,

FFRAMWAITH PERFFORMIO A DANGOSYDDION DATBLYGU CYNALIADWY

Ysgrifennais atoch ar 3 Tachwedd 2014, gan nodi manylion Fframwaith Perfformiad Cynllunio Llywodraeth Cymru, a'r camau y byddwn yn eu cymryd i'ch cynorthwyo i adrodd arno. Mae'r llythyr hwn yn egluro sut y bydd rhywfaint o'r wybodaeth sydd ei hangen yn cael ei chasglu a sut y byddwn yn adrodd arno, yn ogystal ag yn rhoi diweddariad ar y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy.

Diwygiadau i'r Arolwg Rheoli Datblygiadau Chwarterol

Esboniodd y llythyr y byddai meysydd newydd yn cael eu cyflwyno i'r Arolwg Datblygu Rheoli Chwarterol i gasglu rhywfaint o'r data Fframwaith Perfformiad. Yn dilyn profi mewnol, mae ffurflen yr arolwg wedi cael ei ddiwygio i gynnwys meysydd newydd ar gyfer y data ychwanegol.

Rydym yn rhagweld y bydd angen gwneud gwaith cysylltiedig ychwanegol i gasglu gwybodaeth ar gyfer y meysydd newydd hyn, ac efallai yr hoffech gynnal trafodaethau cynnar i nodi a ellir casglu'r data hwn gan ddefnyddio sgiliau neu gwybodaeth fewnol, er enghraifft drwy addasu neu gopïo ymholiadau presennol yn eich systemau cefn swyddfa. Gallai fod yn anodd i rai awdurdodau cynllunio lleol gyflwyno setiau data llawn ar gyfer yr ystadegau newydd, ac rydym yn bwriadu defnyddio dull o weithredu fesul cam.

- **Cam 1** – casglu a chofnodi dewisol ar gyfer yr ystadegau newydd i gofnodi chwarter 4 (Hydref-Rhagfyr) 2014, er mwyn cynnal prawf effaith
- **Cam 2** – meincnodi a dadansoddi ffurflenni ystadegol i gofnodi chwarteri 1 (Ionawr-Mawrth) a 4 (Hydref-Rhagfyr) 2015
- **Cam 3** – bydd yn rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol gyflwyno setiau data llawn ar gyfer chwarter cofnodi 1 (Ionawr-Mawrth) 2016

Am fanylion technegol llawn o'r dangosyddion newydd a gyflwynwyd i'r Arolwg Chwarterol, edrychwch ar y tab "rhyddhau nodiadau" yn y ffurflen arolwg. Am ragor o



wybodaeth am y Fframwaith Perfformio cysylltwch â Kris Hawkins, ar kris.hawkins@wales.gsi.gov.uk.

Cyflwyno Gwybodaeth am Ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy

Hoffem ddiolch i'r holl awdurdodau cynllunio lleol sydd wedi darparu data ar gyfer y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy. Er ein bod wedi derbyn data gan fwyafrif yr awdurdodau cynllunio lleol, mae rhai heb anfon y ffurflenni neu heb ddarparu'r manylion llawn.

Fel rhan o'r gwerthusiad parhaus o'r ymarfer hwn, byddai o fudd i ddeall y problemau sy'n gysylltiedig â chasglu'r wybodaeth, ac a yw eich cyflenwr TG wedi diweddarau eich system cefn swyddfa i helpu i gasglu'r wybodaeth. Rydym yn cymryd, os nad ydych wedi nodi'n wahanol, bod y data llawn wedi'i ddarparu.

Ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol sydd heb ddarparu data neu sydd wedi darparu rhan o'r wybodaeth, yng ngoleuni'r newidiadau i'r ffurflen 1-APP isod, dylech nawr ddarparu'r ffurflenni chwarterol cyflawn. Gadewch i Max Hampton (max.hampton@wales.gsi.gov.uk) wybod y diweddaraf ar sut mae eich awdurdod wedi gweithredu'r Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy erbyn 11 Mawrth.


Ffurflen Cais Cynllunio 1-APP

Rhoddwyd ymrwymiad gennym yn y gorffennol i ddiwygio'r ffurflen cais cynllunio safonol 1-APP, i gyflwyno meysydd newydd i gasglu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy. Rwy'n falch o'ch hysbysu, wedi proses profi, i'r newidiadau gael eu cyhoeddi ar y ffurflen 1-APP ddydd Mercher 25 Chwefror. Dylai hyn ei gwneud yn haws i gasglu data ar gyfer Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yn y dyfodol.

Yn dilyn ein hymrwymiad i gyflawni'r gwaith hwn ym mis Mehefin 2013, ac eto wrth i'r prosiect ddod yn nes at ei weithredu wrth brofi y Porthol Cynllunio ym mis Chwefror 2014, cawsoch eich annog i drafod y newidiadau arfaethedig hyn gyda'ch cyflenwyr TG. Dylech felly fod yn ymwybodol o pa gamau y mae eich cyflenwyr TG yn eu cymryd i hwyluso'r broses o gasglu a chofnodi'r data hwn. Cofiwch os nad yw eich cyflenwr TG wedi gwneud newidiadau i'ch system TG er mwyn casglu'r wybodaeth o'r meysydd newydd, yna bydd angen ichi lawrlwytho y ffurflen gais a'i gweld yn llawn er mwyn edrych ar y data newydd ac adrodd arno.

Dylech nodi y bydd y newidiadau i'r ffurflen 1-APP yn cofnodi gwybodaeth ar y cais fel y caiff ei gyflwyno, ac y bydd angen i'r awdurdod cynllunio lleol ystyried y newidiadau neu'r diwygiadau i'r cais wrth adrodd ar ganiatadau cynllunio.

Yn gywir,



Neil Hemington
Prif Gynllunydd
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Adran Cyfoeth Naturiol